

Gonestrwydd caredig

“... rhedodd rhyw ddyn ato a phenlinio o’i flaen a gofyn iddo, ‘Athro da, beth a wnafi i etifeddu bywyd tragwyddol?’” (adn. 17)

Beth am ddarllen Marc 10:17–31 ac yna myfyrio

Rwyf am wneud ymdrech eto heddiw i bwysleisio fod yr hyn y mae’r Arglwydd yn ei ddweud mewn perthynas â’r nefoedd “Pe na byddai felly, buaswn wedi dweud wrthy ch” yn wir. Pam? Oherwydd fe welwn yn ei berthynas â’i ddilynwyr ei fod bob amser yn onest ac yn eofn. Ni fyddai byth yn cuddio’r gwirionedd oddi wrth ei blant er mwyn arbed eu teimladau. Mae’r stori heddiw yn esiampl arall o hyn.

Mae yna ŵr ifanc, cyfoethog, yn rhedeg at Iesu, yn syrthio wrth ei draed ac yn gofyn, “Beth sydd yn rhaid i mi ei wneud i etifeddu bywyd tragwyddol?” Mae ateb yr Arglwydd yn glir ac yn gryno. “Cadw’r gorchmynion, paid â llofruddio, paid â godinebu,” ac yn y blaen. Mae’r gŵr ifanc yn mynnu, cyn belled ag y mae cadw gorchmynion yn y cwestiwn, ei fod yn ffyddlon. Beth bynnag, mae Iesu yn edrych i mewn i’w enaid ac yn gweld, er ei fod, ar yr wyneb, yn ufudd i’r gorchmynion, yn ei galon, mae yna gariad at gyfoeth. Sylwch ar yr hyn sydd yn cael ei ddweud yn adnod 21, “Edrychodd Iesu arno ac fe’i hoffodd.” Nid yw yr hoffter yma yn hoffter sentimental. Mae’n gariad sydd yn ddigon cryf i wynebu’r gŵr ifanc gyda’r gwirionedd. Gyda’i resymeg arferol, mae Iesu yn torri drwy unrhyw ystrydeb gan ddweud, “Dos, gwerth y cwbl sydd gennyf a dyro i’r tlodion, a chei drysor yn y nef; a thyrd, canlyn fi.” Nid yw hyn yn apelio at y gŵr ifanc. Yr unig wir dduw sydd gan y gŵr yma yw ei gyfoeth, ac nid yw am golli y cyfoeth hwnnw. Unwaith eto, mae’r Arglwydd yn dangos fod ei gariad yn un sydd yn datgelu’r gwirionedd er bod hyn, o bryd i’w gilydd, yn brifo teimladau. Mae’n onest ac yn garedig.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 5:13–18; 18:3–4; 18:13

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Iesu yn aml yn ei gysylltu â’r ymadrodd y buom yn meddwl amdano ddoe?
2. Beth arall mae ef yn ei gysylltu â’r nefoedd?

Gweddi

O Dad, wrth i mi weld yn gynyddol onestrwydd dy Fab, yr wyf yn dod yn fwyfwy ymwybodol na fyddai yn fy nhwylo am ddim. Yr wyf am ymddiried ynddo wrth iddo siarad â mi am y nefoedd, yn yr un modd ag yr wyf yn ymddiried ynddo wrth iddo siarad â mi am bopeth arall. Amen.